Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

# Canllawiau interim i Ddarparwyr ar raddau

Ionawr 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2023 WG48315 ISBN Digidol 978-1-83504-545-9

# Cynnwys

**Trosolwg** .......... 2
**Cyflwyniad** .......... 3
**Cymhwyso graddau** .......... 5
**Graddau yn y broses arolygu** .......... 7
**Atodiad A – Fframwaith Graddau** .......... 10

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ffordd y bydd AGC yn gweithredu graddau. Dogfen ddrafft ydyw, gan ei bod yn rhan o gynllun peilot AGC ar gyfer graddau.

O 1 Ebrill gwnaethom ddechrau ar ein cynllun peilot ynglŷn â graddau mud ac er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau, rydym wedi mynd ati i weithredu graddau drwy ddull fesul cam.

- Cam un – system o raddau ‘mud’ heb eu cyhoeddi ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal a phob gwasanaeth cymorth cartref a arolygir rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mawrth 2024. Ni chaiff y rhain eu cyhoeddi.
- Cam dau – bydd graddau ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal a phob gwasanaeth cymorth cartref a arolygir o fis Ebrill 2024 yn cael eu cyhoeddi.

Bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal yn ystod cam un o fis Medi 2023 tan fis Rhagfyr 2023. Bydd hwn yn ein galluogi i asesu pa mor gyson ydym wrth gymhwyso graddau yn ogystal ag asesu'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau a'n timau arolygu. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau'r gwerthusiad ac unrhyw ddiwygiadau posibl i’r ffordd rydym yn gweithredu. Rydym yn annog y darparwyr a'r timau arolygu i roi adborth i'r gwerthusiad hwn, a bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael maes o law.

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau drafft i ddarparwyr gwasanaethau sy’n nodi'r ffordd y bydd AGC yn cymhwyso graddau ar gyfer arolygiadau llawn o wasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref a arolygir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[1] (Deddf 2016).

2. Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â'n Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig[2] a'r canllawiau ymarfer perthnasol sy'n gysylltiedig ag arolygu, casglu tystiolaeth ac ysgrifennu adroddiadau.

### Rhoi system raddio ar waith

3. O dan adran 37 o Ddeddf 2016, gall Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ar gyfer graddau y gellir eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn dilyn arolygiad. Mae Gweinidogion Cymru yn anelu at gyflwyno'r rheoliadau hyn ym mis Ebrill 2024.

4. Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau hyn, rydym yn mynd ati i weithredu graddau drwy ddull fesul cam.
   - Cam un – system o raddau ‘mud’ ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal a phob gwasanaeth cymorth cartref a arolygir rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.
   - Cam dau – cyhoeddi'r graddau ar gyfer pob gwasanaeth cartref gofal a phob gwasanaeth cymorth cartref a arolygir o fis Ebrill 2024.

5. Yn ystod cam un bydd pob gradd a gaiff ei dyfarnu ar ôl arolygiad yn ‘fud’. **Ni chaiff y radd ei chynnwys yn yr adroddiad arolygu ac ni chaiff ei chyhoeddi ar ein gwefan**.

6. Dyfernir gradd i bob thema arolygu (Llesiant, Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth a'r Amgylchedd).

7. Caiff gwerthusiad o gam un ei gynnal yn 2023/24, a fydd yn ein galluogi i asesu pa mor gyson ydym wrth gymhwyso graddau ac i asesu'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau a thimau arolygu. Caiff unrhyw wersi a ddysgir o'r gwerthusiad eu hystyried fel rhan o'n harolygiadau a drefnir yn ystod 2024/25.

### Gweithredu ar sail hawliau

8. Mae ein fframwaith graddau yn ystyried ein hymrwymiad i hyrwyddo a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys hawliau'r bobl a nodir yn y fframweithiau cyfreithiol canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh
[2] https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-harolygiadau

- Deddf Hawliau Dynol 1998[3]
- Deddf Cydraddoldeb 2010[4]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[5]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[6]
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005[7]
- Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)[8]
- Safonau'r Gymraeg[9]

9. Nodir rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i gynnal hawliau dynol o fewn ein gwaith rheoleiddio ac arolygu ar ein gwefan[10]. Nodir rhagor o wybodaeth am ein dull arolygu sy'n seiliedig ar hawliau yn ein Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

---

[3] https://www.equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol
[4] https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance
[5] www.gov.uk/government/publications/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc-how-legislation-underpins-implementation-in-england
[6] https://www.equalityhumanrights.com/cy/ein-gwaith-hawliau-dynol/monitoring-and-promoting-un-treaties/y-confensiwn-ar-hawliau-personau-ag
[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents
[8] Caiff y rhain eu disodli gan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid maes o law
[9] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made/welsh
[10] https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-harolygiadau

## Cymhwyso graddau

10. Datblygwyd model (gweler atodiad A) sy'n nodi'r canlynol:

- Y radd gyda disgrifiad a anelir at y cyhoedd i ddarparu dealltwriaeth gyffredinol o beth y mae pob gradd yn ei olygu.
- Y radd ar lefel thema gyda disgrifiad manylach a anelir at arolygwyr, darparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr er mwyn meithrin dealltwriaeth well o beth y mae'r radd yn ei olygu i'r gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i gymhwyso graddau'n gyson ar gyfer pob thema arolygu.

11. Byddwn yn dilyn dull dau gam.

**Cam 1: Cydnabod Ansawdd**

12. Y cam cyntaf yw cydnabod ansawdd a chryfderau gwasanaeth. Mae ein fframwaith arolygu[11] yn nodi sut beth yw "da" ym mhob un o'r themâu arolygu.

*Thema arolygu: Llesiant*

13. Bydd y graddau y cyflawnir canlyniadau llesiant pobl yn seiliedig ar effeithiolrwydd y trefniadau a roddir ar waith gan ddarparwyr gwasanaethau o dan y themâu 'Gofal a Chymorth', 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' ac 'Yr Amgylchedd'. Wrth wneud y penderfyniad i ddyfarnu gradd ar gyfer y thema Llesiant, dylid adolygu'r holl dystiolaeth a gesglir yn ystod yr arolygiad ac ystyried, wedi pwyso a mesur, y canlyniadau a gyflawnir gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

14. Gellir nodi'r radd sydd i'w dyfarnu drwy ddefnyddio'r disgrifiad lefel thema o'r radd.

15. Lle mae canlyniadau/risgiau gwael i lesiant y bobl yn cael eu nodi ac mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn cael ei gyhoeddi o dan themâu Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth neu'r Amgylchedd, yna'r radd uchaf y gellir ei rhoi i'r thema llesiant yw gwael.

16. Os canfyddir methiannau bydd angen nodi 'maes i'w wella' ar eu cyfer yn yr adroddiad arolygu mewn unrhyw un o'r 3 thema (Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth a'r Amgylchedd), yna'r radd uchaf y gellir ei rhoi i'r thema Llesiant yw **angen gwella**.

*Thema arolygu: Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Yr Amgylchedd*

17. Dylid adolygu'r holl dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiad ar gyfer y thema benodol honno a'i hystyried er mwyn penderfynu, wedi pwyso a mesur, a oes achos cryf a thystiolaeth i awgrymu bod y gwasanaeth yn gweithredu ar lefel y gellir ei graddio fel **da** neu **ragorol**.

---

[11] https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-arolygu-gwasanaethau-oedolion-phlant

18. Er mwyn dyfarnu’r radd o dan Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, yr Amgylchedd, asesir y geiriad a ddisgrifir o dan y radd lefel thema berthnasol fel y disgrifiad gorau o’r gwasanaeth.

**Cam 2: Dyletswydd Reoleiddio**

19. Mae'r ail gam yn seiliedig ar gyflawni ein dyletswydd reoleiddio a'r angen i gynnig sicrwydd i'r cyhoedd. Ystyrir pob thema arolygu o ran y graddau y mae'r canlyniadau a ddymunir gan bobl yn cael eu cyflawni, a yw'r gwasanaeth yn ddiogel ac a yw hawliau dynol y bobl yn cael eu parchu yn unol â'r rheoliadau perthnasol a chanllawiau statudol cysylltiedig. Mae ein dull gweithredu yn cyd-fynd â'n polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi[12].
    - Os bydd methiannau yn cael eu nodi sy'n gofyn am gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch, h.y. mae canlyniadau/risgiau sylweddol i lesiant y bobl, yna bydd yn rhaid graddio'r thema arolygu fel **gwael**.
    - Os bydd methiannau yn cael eu nodi **nad ydynt** yn gofyn am gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch, ond y cânt eu nodi yn yr adroddiad arolygu fel meysydd i'w gwella, yna'r radd isaf y gellir ei rhoi i'r thema arolygu yw **angen gwella.**

**Heriau penderfynu ar radd**

20. Mae'n bosibl, ar ôl ystyried y dystiolaeth, ac wedi pwyso a mesur, y gallai dwy radd gael eu dyfarnu'n gyfartal i thema arolygu. Yn y sefyllfa hon, dylai arolygwyr ailedrych ar y fframwaith arolygu i ailasesu'r dystiolaeth. Er enghraifft, er mwyn cael gradd **da** dylai gwasanaeth ddangos ei fod yn cyflawni cyfran uchel o'r meysydd a nodir yn y fframwaith arolygu (ar gyfer y thema arolygu honno). Os bydd angen rhagor o dystiolaeth, gellir gofyn am hyn gan y darparwr gwasanaeth.

*Dyfarnu gradd rhagorol*

21. Nid yw ymarfer rhagorol o reidrwydd yn golygu bod y gwasanaeth yn rhagorol. Rydym yn ystyried a yw'r ymarfer yn gynaliadwy ac yn enghraifft o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y gofynion a nodir yn y fframwaith arolygu (ar gyfer y thema arolygu honno). Mae'r disgrifiad lefel thema yn darparu fframwaith ar gyfer cymhwyso gradd rhagorol i thema arolygu.

22. Wrth ystyried a ddylid dyfarnu gradd rhagorol mewn unrhyw thema arolygu, trafodir y dystiolaeth ategol â'r rheolwr tîm. Bydd hyn yn golygu bod proses herio ar gael a bydd yn ein galluogi i fod yn fwy cyson wrth gymhwyso gradd rhagorol.

---

[12] https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-dulliau-gorfodi

## Graddau yn y broses arolygu

### Adborth yn dilyn arolygiad

23. Mae rhoi adborth yn gyfle pwysig i roi trosolwg o'r canfyddiadau i'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol ac i archwilio a phrofi'r dystiolaeth y byddwn o bosibl yn dibynnu arni yn yr adroddiad ac wrth gymhwyso graddau.

24. Fel rhan o'r broses adborth ffurfiol, bydd disgwyl i arolygwyr roi'r radd arfaethedig ar gyfer pob thema arolygu i reolwr y gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'n ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaethau ystyried pa raddau y byddent yn eu dyfarnu iddynt hwy eu hunain.

25. Dylid trefnu'r adborth o'r arolygiad ar sail y themâu arolygu. Wrth roi adborth, dylai'r arolygydd hysbysu'r darparwr am unrhyw feysydd lle nad yw canlyniadau'r bobl yn cael eu cyflawni, neu lle ceir risgiau i'r bobl sy'n gyfystyr â thorri'r rheoliadau.

26. Os bydd y radd yn newid ar ôl ystyried y dystiolaeth ymhellach, dylai'r arolygydd hysbysu'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol am hyn a'r rhesymau pam, pan fyddwn yn rhannu'r adroddiad arolygu drafft.

### Cyflwyno adroddiadau

27. Bydd adroddiadau'n cael eu drafftio yn dilyn y cyngor a nodir yn y canllawiau ymarfer ar ysgrifennu adroddiadau[13].

28. Byddwn yn defnyddio geiriau gwerthusol yn yr adroddiad er mwyn helpu i gysylltu'r naratif â'r radd. Nodir rhai geiriau gwerthusol a awgrymir[14] yn y tabl canlynol:

| |
|---|
| **Rhagorol:** neilltuol, cryf iawn, eithriadol, rhagorol, canmoladwy, arbennig, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, helaeth, effeithiol iawn, creadigol iawn, llawer yn well na'r disgwyl, wedi'i wneud yn fedrus, arloesol |
| **Da:** llwyddiannus, cryf, medrus, gwerth chweil, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trylwyr, defnyddiol, pwerus, pwrpasol, wedi ei ddefnyddio'n dda, yn gyson dda, effeithiol |
| **Angen Gwella:** annigonol, anfoddhaol, anghymwys, amherthnasol, cyfyngedig, anghyson, diffygiol, rhannol, is-safonol |
| **Gwael:** annigonol, aneffeithlon, dim, na, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, analluog, gwan, gwael, ddim yn addas i'r diben, cyfyngedig, yn wynebu risg |

[13] https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A33628903/document/versions/published
[14] Daw'r geiriau gwerthusol o'r Canllaw ar Arddull Ysgrifennu Adroddiadau Arolygiadau ar y Cyd AGC / Estyn. Fodd bynnag, mae'r disgrifyddion 'Angen Gwella' wedi cael eu haddasu'n briodol.

**Herio'r radd**

29. Nid yw darparwyr gwasanaethau yn gallu herio'r graddau yn uniongyrchol nac apelio yn eu herbyn. Y polisi ymateb i adroddiadau arolygu[15] yw'r broses lle gall darparwr y gwasanaeth gyflwyno sylwadau ar ba mor gyflawn yw'r dystiolaeth a/neu degwch / cymesuredd ein canfyddiadau y mae ein dyfarniadau neu ein graddau wedi'u seilio arnynt. Lle caiff tystiolaeth (cywirdeb ffeithiol) ei herio'n llwyddiannus, efallai y bydd angen i ni adolygu'r radd.

**Cofnodi graddau**

30. Er na fyddwn yn nodi graddau yn yr adroddiad nac yn rhannu adborth ag unrhyw un heblaw'r darparwr gwasanaeth/rheolwr, caiff graddau eu cofnodi'n electronig ar gyfer y cynllun peilot a'r adolygiad.

**Diffyg cydymffurfio**

31. Mae ein hymateb i achos o ddiffyg cydymffurfio yn parhau'n ddigyfnewid. Rydym yn dilyn ein polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi. Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth, trefnir ail arolygiad â blaenoriaeth o'r gwasanaeth **o fewn chwe mis** i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

32. Yn dilyn yr ail arolygiad, byddwn yn ystyried y dystiolaeth ynghylch a yw'r canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

    Os bydd yr arolygydd yn pennu bod y canlyniadau yn wael neu fod risgiau i bobl, bydd angen i'r arolygydd gadarnhau a yw'r rhain yn ymwneud â'r un meysydd ymarfer a nodwyd yn y Maes i'w Wella neu'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad cyntaf neu a ydynt yn methu fel maes ymarfer newydd.

    Os bu newid ers yr arolygiad gwreiddiol, byddwn yn ailystyried y radd sy'n berthnasol i'r thema arolygu honno yn yr adroddiad. Byddwn hefyd yn ailystyried y radd a ddyfernir i'r thema Llesiant. Er enghraifft, os cafodd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ei gyhoeddi mewn perthynas â gofynion o dan Gofal a Chymorth yn y fframwaith arolygu, yna ar ôl yr ail arolygiad dylai'r arolygydd ailystyried y radd a ddyfarnwyd i'r thema arolygu Gofal a Chymorth a'r thema arolygu Llesiant. Dylai unrhyw radd newydd gael ei chymhwyso drwy ddefnyddio'r disgrifiad lefel thema.

33. Yn ogystal, rydym hefyd yn ystyried a yw'r canlyniadau gwael a'r risgiau sy'n effeithio ar bobl yn ymwneud ag agweddau eraill ar ddarparu'r gwasanaeth (ond na chânt eu nodi'n benodol yn yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth).

[15] https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau/adroddiadau-gwasanaethau-ac-arolygiadau

34. Nid oes unrhyw amgylchiadau eraill y cytunwyd arnynt lle y byddwn yn newid graddau mud, heblaw am her ddilys mewn arolygiad neu o dan ein polisi ar ymateb i adroddiadau arolygu.

35. Lle caiff achos parhaus a newydd o ddiffyg cydymffurfio ei nodi mewn arolygiad â phwyslais penodol, dylai'r arolygydd ystyried a oes angen i'r arolygiad newid i fod yn arolygiad llawn. Bydd angen i'r arolygydd ystyried y graddau ar gyfer pob thema os caiff arolygiad llawn ei gwblhau.

## Atodiad A – Fframwaith Graddau

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r graddau a'r disgrifiadau sylfaenol y cynigir eu defnyddio gyda'r cyhoedd.

| | |
|---|---|
| **Rhagorol:** | Dyma wasanaeth neilltuol sy'n cefnogi pobl yn dda iawn ac yn rhagori ar ein disgwyliadau. |
| **Da:** | Dyma wasanaeth da sy'n cefnogi pobl yn dda ac yn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Angen gwella:** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn dda ac mae angen iddo wella er mwyn bodloni ein disgwyliadau. |
| **Gwael:** | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cefnogi pobl yn ddiogel ac mae angen cymryd camau brys i ddiogelu pobl a gwella canlyniadau. |

**Y disgrifyddion graddau lefel thema**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r disgrifyddion graddau lefel thema a'r disgrifiadau sylfaenol i'w defnyddio gan arolygwyr wrth raddio'r thema arolygu berthnasol yn dilyn arolygiad.

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Llesiant** | | | |
| Caiff y canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cyflawni'n gyson ac maent o ansawdd uchel.<br>Mae darparwyr gwasanaethau yn mynd ati i chwilio am opsiynau newydd i alluogi'r bobl i gael profiadau cadarnhaol a gwella eu bywydau. Mae adborth am effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ei ddisgrifio fel gwasanaeth neilltuol a/neu wasanaeth sy'n arwain y sector. | Caiff canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cyflawni'n gyson. Caiff hawliau dynol y bobl eu bodloni'n gyson.<br>Mae adborth am effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ei ddisgrifio fel gwasanaeth sy'n gyson dda. | Mae diffyg cysondeb yn y canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a/neu wrth fodloni eu hawliau dynol.<br>Caiff barn gymysg ei rhannu am effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br>Mae angen mynd ati i'w wella. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y canlyniadau i'r bobl. Nid yw hawliau dynol y bobl yn cael eu bodloni. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Gofal a Chymorth** | | | |
| Mae ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn neilltuol a/neu'n arwain y sector. Cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff gwersi eu dysgu/rhannu ag eraill i wella gwasanaethau. Mae darparwr y gwasanaeth yn mynd ati i geisio cyfleoedd i ddysgu a rhannu arferion da ym mhob rhan o'r sector. | Mae ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson Cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff gwersi eu dysgu er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael eu diogelu. | Nid yw ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson. Ni chynllunnir gofal a chymorth bob amser drwy gynnwys y bobl nac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol yn gyson ychwaith. Ni chaiff y gwersi a ddysgwyd o ymarfer eu gweithredu'n gyson er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ac nid yw'r bobl yn cael canlyniadau cadarnhaol. Ni chynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl nac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion. Ni chaiff fawr ddim o'r gwersi a ddysgwyd o ymarfer ei roi ar waith, os o gwbl, er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn wynebu risg. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |

| Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn neilltuol a/neu'n arwain y sector. Mae'r arweinyddiaeth arloesol, y gwaith llywodraethu a'r diwylliant cadarnhaol y mae'n ei greu yn llywio ac yn gwella canlyniadau. Grŵp o staff llawn cymhelliant, medrus a chadarn sy'n cael cymorth a hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel i'r bobl. | Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain yn dda yn gyson.<br>Mae'r arweinyddiaeth a'r gwaith llywodraethu yn creu diwylliant cadarnhaol sy'n hyrwyddo'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Grŵp o staff medrus a chadarn sy'n cael cymorth a hyfforddiant cyson er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. | Mae diffyg cysondeb o ran sut y caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain.<br>Mae'r arweinyddiaeth a'r gwaith llywodraethu yn anghyson ac nid yw'n darparu diwylliant i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn gyson.<br>Mae'r hyfforddiant a'r cymorth i'r staff yn anghyson ac mae hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni canlyniadau i'r bobl. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli a'i arwain. Nid yw hyn yn darparu diwylliant i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Nid yw'r staff yn cael braidd dim cymorth a hyfforddiant, os o gwbl, sy'n effeithio ar ganlyniadau'r bobl. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |
| **Yr Amgylchedd** | | | |
| Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Defnydd arloesol a chreadigol o ofod mewnol ac allanol. Mae mesurau rhagorol a/neu benodol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. | Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw. Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol i'r bobl. | Nid yw'r amgylchedd bob amser yn ddiogel nac yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol. Mae rhai mesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. Mae angen gwneud gwelliannau. | Mae diffygion helaeth a/neu sylweddol o ran diogelwch a/neu'r gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd. Nid oes digon o fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella diogelwch a llesiant y bobl. |